# LC1388

APS.gif (5890 bytes)

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("y Ddeddf") ac maent yn gwneud darpariaeth i banel annibynnol adolygu mewn dau fath o achos fel yr amlinellir yn Nodyn Esboniadol y Rheoliadau.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7

Mae’r diffiniad Saesneg o "suitability determination" yn cynnwys croesgyfeiriad at reoliad 3(a), er bod y diffiniad Cymraeg cyfatebol o "penderfyniad ar addasrwydd" yn cyfeirio at reoliad 3 ar ei ben ei hun. Er bod y ddau yn gywir, dylent fod yn gyson. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Defnyddiwyd y geiriau "penderfyniad i ddatgelu" ["determination to disclose"] i gyfateb i "disclosure determination" yn rheoliad 2. Fodd bynnag, gellir hefyd gwneud penderfyniad i beidio â datgelu, ac felly byddai "penderfyniad ar ddatgelu" yn fwy priodol fan hyn a lle y defnyddir y term diffiniedig.

Dyma’r fformat a ddefnyddir mewn perthynas â "penderfyniad ar addasrwydd " ["suitability determination"]. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’n ymddangos nad oes unrhyw effaith gyfreithiol i reoliad 9; nid yw defnyddio "bydd" yn cyfleu dyletswydd na phwer. Os yw’n ofynnol i’r Cynulliad Cenedlaethol wneud y gwaith hwn, dylid defnyddio "rhaid". Mae’r un peth yn wir yn 17(2). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn y testun Saesneg, mae rheoliad 13(b) yn defnyddio iaith rhyw benodol ("him"). [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

## Sylwadau

Nid yw’r Rheoliadau’n cynnwys unrhyw drefniadau trosiannol ar gyfer adolygiadau sy’n cael eu cynnal o dan y Rheoliadau presennol, y mae’n bwriadu’u dirymu. Credir mai’r rheswm dros hyn yw na chafwyd unrhyw adolygiadau o dan y Rheoliadau presennol.

Mae angen cynnwys y termau Cymraeg cyfatebol yn y diffiniadau Saesneg yn rheoliad 2. Gellir gwneud hyn wrth gyhoeddi gan mai’r rheswm dros hyn yw helpu’r darllenydd yn hytrach na chael unrhyw effaith gyfreithiol.

Mae’r rhain yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Tachwedd 2006